

CANLLAWIAU AR GYFER LLYWODRAETHU'R ARDAL GENHADAETH
GAN GYNNWYS CYNNAL CYFARFODYDD FESTRI BLYNYDDOL YR ARDAL GENHADAETH

1. Darperir y canllawiau hyn ar gyfer aelodau Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yng ngwaith llywodraethu'r Ardal Genhadaeth. Mae'n seiliedig ar y gofynion ar gyfer Cynghorau Plwyfol Eglwysig a Chynadleddau Deoniaethol, fel y nodir yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru. Lle mae rhywfaint o anghysondeb rhwng y rheolau ar gyfer Cynghorau Plwyfol Eglwysig a Chynadleddau Deoniaethol, mae'r rheolau mwyaf llym wedi cael eu cymhwysio rhag mynd yn groes i ofynion Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.
2. Rhaid i'r Ardal Genhadaeth drefnu bod Cyfarfod Festri yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Rhaid i'r Cyfarfod Festri Blynyddol gael ei gynnal ddim hwyrach na 30 Ebrill bob blwyddyn, a bydd cyfarfod o'r fath yn agored i'r bobl a ganlyn:
 - i) Arweinydd yr Ardal Genhadaeth, a phob llygwr a chlerig ordeiniedig sydd â Thrwydded yr Esgob, Comisiwn yr Esgob neu Ganiatâd arall i Weinyddu;
 - ii) Gweithwyr Lleyg cyflogedig llawn amser o fewn yr Ardal Genhadaeth
 - iii) Unrhyw etholwr cymwys o fewn yr Ardal Genhadaeth;
 - iv) Gyda chymeradwyaeth Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth, unrhyw un sy'n byw yn yr Ardal Genhadaeth sy'n gymunwr, er nad oes gan y bobl hyn pleidlais; ac
 - v) Unrhyw un arall yn ôl disgrisiwn Arweinydd yr Ardal Genhadaeth, er na fydd gan y bobl hyn yr hawl i siarad na phleidleisio.
3. Os oes unrhyw anghydfod ynghylch hawl unigolyn i fod yn bresennol, siarad neu fwrw pleidlais yng Nghyfarfod Festri'r Ardal Genhadaeth, bydd dyfarniad Arweinydd yr Ardal Genhadaeth yn derfynol. Mae modd apelio i'r Archddiacon, fodd bynnag.
4. Gall pob eglwys o fewn yr Ardal Genhadaeth gynnal cyfarfod cynulleidfaol cyn Cyfarfod Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth i ethol aelodau pwyllgor yr eglwys, gyda phwyllgor yr eglwys yn atebol i Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth. Yn y cyfarfod cynulleidfaol, bydd y gynulleidfa hefyd yn enwebu cynrychiolydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth ac eilydd (bydd nifer y cynrychiolwyr ar gyfer pob eglwys yn cael ei gadarnhau gan yr Ardal Genhadaeth i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol a chyfartal o bob eglwys, gan sicrhau na fydd y cyfanswm yn fwy na 25 aelod etholedig o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth), is-wardeiniaid (un wedi ei enwebu gan bwyllgor yr eglwys ac un wedi ei enwebu gan yr offeiriad sydd â chyfrifoldeb arbennig am yr eglwys), ystlyswyr, cynrychiolydd y Gynhadledd Esgobaethol, ac unrhyw sefyllfa arall a argymhellir gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth, i'w cadarnhau yng Nghyfarfod Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth. Bydd yr is-wardeiniaid a gaiff eu hethol ar gyfer pob eglwys, a chynrychiolydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth, yn aelodau yn rhinwedd eu swyddi o bwyllgor yr eglwys.
5. Bydd Cyfarfod Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth yn cynnal y busnes a ganlyn:
 - i) derbyn a thrafod y cyfrifon ac adroddiadau cyfunol ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Ym mlwyddyn gyntaf yr Ardal Genhadaeth, bydd cyfarfodydd cynulleidfaol yr eglwys i unigol yn derbyn ac yn cymeradwyo'r cyfrifon am flwyddyn olaf y cyn-Gyngor Plwyfol Eglwysig, ac yn cadarnhau yng Nghyfarfod Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth fod hyn wedi cael

ei wneud. Yn y blynyddoedd dilynol, bydd cyfarfodydd cynulleidfaol yr eglwysi unigol yn adolygu ac yn cadarnhau'r rhan o gyfrifon yr Ardal Genhadaeth sy'n berthnasol i'w heglwys ac yn cadarnhau i Gyfarfod Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth eu bod yn wir ac yn gywir;

ii) derbyn a thrafod yr adroddiadau o'r Gynhadledd Esgobaethol;

iii) derbyn a thrafod unrhyw adroddiad arall y gofynnwyd amdano gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth; a hefyd

iv) trafod unrhyw fater arall lle rhoddwyd rhybudd digonol i Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth.

Prif fusnes yr Ardal Genhadaeth yw hyrwyddo cariad a gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist yn yr Ardal Genhadaeth. Lle bo modd, dylai adroddiadau a busnes Cyfarfod Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth adlewyrchu neu wella'r prif nod hwn.

6. Bydd y Cyfarfod Festri Blynyddol yn cynnal etholiadau ar gyfer swyddi yn yr Ardal Genhadaeth, yn y drefn a nodir yma:

i) Wardeiniaid yr Ardal Genhadaeth - un i gael ei ethol gan y Cyfarfod Festri, ac un arall i'w benodi gan Arweinydd yr Ardal Genhadaeth (yn dilyn trafodaethau gyda'r Tîm Gweinidogaeth ar y Cyd);

ii) Is-wardeiniaid ar gyfer pob eglwys o fewn yr Ardal Genhadaeth, yn seiliedig ar yr enwebiadau a wneir gan gyfarfodydd cynulleidfaol yr eglwys unigol;

iii) Aelodau Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth;

iv) Ystlyswyr ar gyfer pob eglwys o fewn yr Ardal Genhadaeth, yn seiliedig ar yr enwebiadau a wneir gan gyfarfodydd cynulleidfaol yr eglwysi unigol; a hefyd

v) Cynrychiolwyr ar gyfer pob eglwys i'r Gynhadledd Esgobaethol, yn seiliedig ar yr enwebiadau a wneir gan gyfarfodydd cynulleidfaol yr eglwysi unigol, gan gofio na fydd gan unrhyw glerig hawl i bleidleisio ar benodi cynrychiolwyr lleyg i'r Gynhadledd Esgobaethol.

7. Bydd pawb a enwebwyd i neu ar gyfer unrhyw un o'r rolau etholedig yn yr Ardal Genhadaeth fel y nodir uchod wedi cydsynio i'w henwebiad cyn cael eu cyflwyno ar gyfer eu hethol.

8. Bydd Cyfarfod Festri'r Ardal Genhadaeth yn penodi archwiliwr annibynnol neu archwiliwr cyfrifon (yn unol â Deddf Elusennau 2011, yn dibynnu ar incwm yr Ardal Genhadaeth) i adolygu cyfrifon cyfunol yr Ardal Genhadaeth. NI fydd yr archwiliwr annibynnol na'r archwiliwr cyfrifon yn aelod o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth. Ewch i wefan y Comisiwn Elusennau (www.gov.uk/government/organisations/charity-commission) am ragor o fanylion os oes angen.

9. Gellir galw cyfarfodydd pellach o'r festri ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhaid galw Cyfarfod Festri Arbennig os gofynnir amdano'n ysgrifenedig gan o leiaf chwarter neu ddeg ar hugain (pa un bynnag yw'r isaf) etholwr cymwys o fewn yr Ardal Genhadaeth.

10. Rhaid i bob Ardal Genhadaeth gael Rhôl Etholiadol, ac argymhellir (ond nid yw'n ofynnol) bod pob Cynhadledd Ardal Genhadaeth yn penodi Swyddog Rhôl Etholwyr pwrpasol. Argymhellir hefyd (ond nid yw'n ofynnol) fod y cyfrifoldeb am baratoi Rhôl Etholwyr i bob eglwys o fewn yr Ardal Genhadaeth yn cael ei ddirprwyo i bob pwyllgor eglwys, a bydd gwybodaeth o'r fath yna'n bwydo i Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth (neu Swyddog Rhôl Etholwyr yr Ardal Genhadaeth) fel y gellir coladu'r wybodaeth yn iawn. Bydd Rhôl Etholwyr yr Ardal Genhadaeth yn cael ei isrannu fesul eglwys, a gall pob pwyllgor eglwys gadw copi o Rôl yr Etholwyr ar gyfer eu heglwys benodol.
11. Mae'r rheolau sy'n ymwneud â Rholau Etholwyr Ardaloedd Cenhadaeth (mynediad, symud, adnewyddu ac ailosod) yn union fel sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd gan bob eglwys.
12. Mae aelodaeth Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn disgyn i dri chategori: aelodau ex-officio; aelodau etholedig; ac aelodau cyfetholedig.
 - i) Mae aelodaeth ex-officio o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn cynnwys Arweinydd yr Ardal Genhadaeth a phob clerig arall (oni bai y cytunir fel arall gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth a'r aelodau ex-officio posibl), unrhyw weithiwr lleyg cyflogedig llawn-amser, a Wardeiniaid yr Ardal Genhadaeth;
 - ii) Mae'r aelodaeth etholedig yn cynnwys niferoedd o'r fath o etholwyr lleyg cymwys o bob eglwys yn yr Ardal Genhadaeth (nad yw'n fwy na chyfanswm o bump ar hugain), fel yr etholwyd yn y Cyfarfod Ffestri Blynyddol. Bydd nifer yr aelodau etholedig yn cael ei bennu gan ac yn y Cyfarfod Ffestri Blynyddol. Gellir paratoi rhestr atodol o aelodau etholedig hefyd, fel os na fydd aelod etholedig ar gyfer unrhyw eglwys yn gallu neu'n dewis peidio â mynychu cyfarfodydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth, y bydd hi'n bosibl i'r unigolyn nesaf ar y rhestr atodol sy'n cynrychioli'r eglwys honno fynychu yn ei le/ei lle. Gellir defnyddio'r rhestr atodol hefyd os bydd unrhyw swydd wag dros dro; a hefyd
 - iii) Gall yr aelodaeth gyfetholedig (nad yw'n fwy na saith mewn nifer) gynnwys yr ysgrifennydd a/neu'r trysorydd (os nad ydynt eisoes yn aelodau ex-officio neu'n aelodau etholedig), neu bobl wedi eu dewis o blith y lleygwyr neu'r clerigion (ac eithrio clerigion wedi ymddeol), darllenwyr trwyddedig, neu weithwyr lleyg trwyddedig.
13. Ni fydd nifer aelodau clerigol Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn fwy na nifer yr aelodau lleyg, ac ni all nifer yr aelodau cyfetholedig fod yn fwy na nifer yr aelodau etholedig.
14. Oni bai eu bod yn aelodau o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn barod, gall unrhyw un o gynrychiolwyr yr Ardal Genhadaeth ar Fyrddau Esgobaethol, neu aelodau o'r Corff Llywodraethol a/neu Gorff y Cynrychiolwyr sy'n byw yn yr Ardal Genhadaeth, ar wahoddiad Arweinydd yr Ardal Genhadaeth, fod yn bresennol a siarad yng nghyfarfodydd Cynhadledd yr Ardal Cenhadaeth, ond ni fydd y bobl hyn yn cael pleidlais.
15. Rhaid i bob aelod o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth fod yn gymunwyr dros 18 oed, ac mae'n rhaid iddynt lofnodi datganiad o'u parodrwydd a'u cymhwyster i fod yn aelodau o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth.
16. Rhaid i Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth benodi ysgrifennydd, a thrysorydd. Os yw'n dymuno, gall Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth hefyd benodi dirprwy ysgrifennydd a/neu ddirprwy drysorydd. Bydd Ysgrifennydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd Cyfarfod Ffestri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth. Argymhellir hefyd (ond nid yw'n

ofynnol yn gyfansoddiadol) y dylai Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth benodi cyd-gadeirydd Lleyg, Gweinyddwr Ardal Genhadaeth, Ysgrifennydd Cymorth Rhodd yr Ardal Genhadaeth, a Swyddog Diogelu'r Ardal Genhadaeth. Daw'n ofyniad cyfreithiol ar Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth i benodi Swyddog Gwybodaeth yr Ardal Genhadaeth, ond bydd rhagor o fanylion am y gofyniad hwn ar gael pan fo angen.

17. Rhaid i Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n ddyletswydd ar y Tîm Gweinidogaeth ar y Cyd a Chynhadledd yr Ardal Genhadaeth i ymgynghori gyda'i gilydd a chydweithredu ym mhob mater sy'n peri pryder ac sydd o bwys i'r Ardal Genhadaeth.
18. Dylai Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth ystyried unrhyw fynegiant o farn gan gyfarfodydd eglwysig sydd â chyfansoddiad priodol. I'r perwyl hwn, bydd gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth yr hawl a'r gallu i benodi Pwyllgor Gweithredol ac unrhyw is-bwyllgorau y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i) is-bwyllgor cyllid, is-bwyllgor adeiladau ac eiddo, a phwyllgorau eglwysi unigol. Bydd aelodaeth pwyllgorau o'r fath yn cynnwys rhai aelodau o Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth, a bydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn gwneud gorchmynion sefydlog (neu reolau a rheoliadau) i lywodraethu pŵerau a gweithdrefnau'r is-bwyllgorau, gan gynnwys pŵerau i gyfethol aelodau ychwanegol, fel y tybia'n briodol, ar yr amod bod holl weithrediadau'r is-bwyllgorau (oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi ymlaen llaw gan y rheolau sefydlog) yn cael eu cadarnhau gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth. Bydd gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth y pŵer i ddiwygio rheolau sefydlog yr is-bwyllgorau, neu i ddiddymu unrhyw is-bwyllgor, os bydd unrhyw is-bwyllgor o'r fath yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau.
19. Yr anogaeth yw bod y Cyd-gadeirydd Lleyg yn llywyddu yng nghyfarfodydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth, ond mae'n ofyniad cyfansoddiadol fod yn rhaid i Arweinydd yr Ardal Genhadaeth neu'r Cyd-gadeirydd Lleyg neu'r Is-gadeirydd lywyddu dros gyfarfodydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth, a bydd gan y llywydd bleidlais fwrw yn achos pleidlais gyfartal. Os nad yw Arweinydd yr Ardal Genhadaeth, y Cyd-Gadeirydd Lleyg na'r Is-gadeirydd yn gallu mynd i gyfarfod, rhaid i Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth benodi cadeirydd o blith yr aelodau sy'n bresennol. Bydd y cadeirydd dros dro yn cael pleidlais fwrw tra bydd yn llywyddu dros gyfarfodydd yn achos pleidlais gyfartal.
20. Ni fydd trafodion Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn cael eu hannilysu os nad oes gan unrhyw gyfarfod gynrychiolaeth ddilys o bob eglwys o fewn yr Ardal Genhadaeth.
21. Mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn gyfansoddiadol gyfrifol am hyrwyddo holl genhadaeth yr Eglwys yn yr Ardal Genhadaeth – yn fugeiliol; efengylaidd; cymdeithasol; ac eciwmenaidd.
22. Mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn gyfansoddiadol gyfrifol am asesu anghenion yr Ardal Genhadaeth o ran cyllid, personél ac adeiladau, ac mae hefyd yn gyfrifol am waith cynllunio strategol yr addoli a'r gofal bugeiliol o fewn yr Ardal Genhadaeth. Mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth hefyd yn gyfansoddiadol gyfrifol am reoli a chodi arian yr Ardal Genhadaeth. O fewn rheolau sefydlog (y rheolau a'r rheoliadau) pwyllgorau eglwysi, caiff Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth ddirprwyo pŵerau penodol sy'n ymwneud â chyllid i bwyllgorau eglwysi unigol, ond Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth sy'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol.

23. Mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn gyfansoddiadol gyfrifol am baratoi cyllideb yr Ardal Genhadaeth a fydd, oni bai y dirprwyir materion yn benodol, yn cynnwys treuliau'r eglwys, cyfraniadau'r eglwys at Gyfran yr Esgobaeth yn ogystal â chenhadaeth gartref a thramor, ac mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth hefyd yn gyfrifol am y trefniadau ar gyfer codi arian sydd eu hangen gan yr Ardal Genhadaeth i wneud popeth y mae eisiau ei gyflawni.
24. Mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn gyfansoddiadol gyfrifol am gynhyrchu adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Ardal Genhadaeth, a bydd hefyd yn gyfrifol am yr adolygiad blynyddol o dreuliau clerigion.
25. Mae Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn gyfansoddiadol gyfrifol am gyflawni ei ddyletswyddau cyfansoddiadol, am weithredu unrhyw un o ddarpariaethau'r Corff Llywodraethol a/neu'r Gynhadledd Esgobaethol, rhoi cyngor ar bob mater a gyfeiriwyd ati'n briodol, ac ystyried a thrafod materion sydd o ddiddordeb crefyddol a chyhoeddus i'r Eglwys yng Nghymru a'r gymuned ehangach (ond nid i lunio neu ddatgan athrawiaeth).
26. Ar wahân i'r eitemau y mae'n gyfansoddiadol gyfrifol am eu cyflawni, ac yn amodol ar unrhyw benderfyniad gan y Corff Llywodraethol a/neu'r Gynhadledd Esgobaethol, bydd Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth yn rheoli ei materion ei hun, a bydd yn llunio ei rheolau a'i rheoliadau ei hun.